

# Gwnewch wahaniaeth pob diwrnod cyflog

**Rhoi trwy'r Gyflogres**

Canllaw i gyflogwyr

tenovus cancer care
gofal canser

# Mae Rhoi trwy'r Gyflogres yn ffordd hawdd y gall eich sefydliad gefnogi Gofal Canser Tenovus

Mae'r cynllun yn galluogi staff i roi arian i elusen yn uniongyrchol, trwy dynnu swm dewisol o'u cyflog gros. Oherwydd bod rhoddion ariannol yn cael eu cymryd cyn treth, mae gweithwyr yn derbyn rhyddhad treth ac mae'r elusen yn elwa o gyfanswm llawn y rhodd.

Does dim ots os ydych chi'n fusnes bach neu'n sefydliad mawr. Mae'r cynllun Rhoi trwy'r Gyflogres yn hawdd i'w gyflwyno, yn syml i'w reoli ac yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon i Gofal Canser Tenovus. Mae'n incwm rheolaidd a dibynadwy sy'n ein helpu i barhau i ddarparu gwasanaethau cymorth hanfodol.



## Sut mae'n gweithio

Mae eich gweithiwr cyflogedig yn dewis faint yr hoffent ei roi i bob cyfnod cyflog. Mae'r swm hwnnw'n cael ei dynnu o'u cyflog cyn i'r dreth gael ei chymhwyso.

Mae hyn yn golygu bod y gost i'r gweithiwr yn is na'r rhodd a dderbyniwyd gan yr elusen, oherwydd mae'r gyfran a fyddai fel arfer yn mynd i Adran Cyllid a Thollau EF (CThEF) mewn treth yn cael ei ailgyfeirio at eu hachos dewisol.

| Rhodd | Cost i'r gweithiwr | |
|---|---|---|
| Yn fisol | Trethdalwr cyfradd safonol | Trethdalwr cyfradd uwch |
| £5 | £4 | £3 |
| £10 | £8 | £6 |
| £20 | £18 | £16 |



Mae Rhoi trwy'r Gyflogres yn lleihau incwm trethadwy trwy dynnu arian o'r cyflog gros cyn cymhwyso Treth Incwm, sy'n golygu bod treth yn cael ei thalu ar swm is. Trethdalwyr cyfradd uwch (40%) a threthdalwyr cyfradd ychwanegol (45%) sy'n elwa fwyaf, gan eu bod yn derbyn rhyddhad treth ar eu cyfradd uchaf, gan leihau cost rhodd o £100 i £60 neu £55.

Caiff pob rhodd ei hanfon at yr Asiantaeth Rhoi trwy'r Gyflogres / Payroll Giving Agency (PGA). Mae'r PGA yn prosesu'r arian a'i ddosbarthu i Gofal Canser Tenovus neu unrhyw elusen arall a ddewiswyd gan eich gweithwyr.

# Y manteision

## I gyflogwyr

### Gwella ymgysylltiad gweithwyr cyflogedig

Mae cynnig cynllun Rhoi trwy'r Gyflogres yn dangos eich bod chi'n gwerthfawrogi'r achosion y mae eich gweithwyr yn teimlo'n gryf amdanynt. Gall helpu i feithrin ffyddlondeb, cymhelliant, ac ymdeimlad o bwrpas.

### Gwella eich Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR)

Mae Rhoi trwy'r Gyflogres yn ffordd weladwy ac ymarferol o ddangos eich ymrwymiad i effaith gymdeithasol ac ymarfer busnes cyfrifol.

### Gweinyddiaeth syml

Mae'r cynllun yn gweithredu trwy eich system gyflogres bresennol, gan ei gwneud hi'n hawdd gweithredu heb fawr o lwyth gwaith ychwanegol.

## I weithwyr

### Cyflym a chyfleus

Mae cofrestru yn cymryd munudau yn unig, ac mae rhoddion yn digwydd yn awtomatig trwy gyflogres.

### Rhyddhad treth

Rhoi trwy'r Gyflogres yw'r unig ffordd y gall gweithwyr dderbyn rhyddhad treth llawn ar roddion elusennol ar adeg eu rhoi.

### Hyblyg ac o fewn eu rheolaeth

Gall gweithwyr ddechrau, stopio, cynyddu neu leihau eu rhodd ar unrhyw adeg. Gallant hefyd ddewis cefnogi mwy nag un elusen os ydyn nhw'n dymuno

## I bobl a effeithir gan ganser

### Cymorth hanfodol pan fydd ei angen fwyaf

Mae rhoddion Rhoi trwy'r Gyflogres yn darparu incwm rheolaidd a dibynadwy i ni, sy'n golygu y gall ein gwasanaethau cymorth barhau i ddarparu cymorth amhrisiadwy i unrhyw un a effeithir gan ganser.

PAYROLL GIVING
APGO QUALITY MARK
GOLD AWARD 2026®

**Mae Gofal Canser Tenovus wedi derbyn y marc ansawdd APGO aur am ein hymrwymiadau i Roi trwy'r Gyflogres**

Dyma achrediad a gefnogir gan y llywodraeth sy'n cydnabod sefydliadau sy'n hyrwyddo a chefnogi cynlluniau rhoi trwy'r gyflogres i'w gweithwyr yn weithredol. Mae'r wobr yn adlewyrchu ein hymrwymiad i annog cefnogi elusennau yn y gweithle a'i gwneud hi'n hawdd i staff gefnogi achosion y maent yn teimlo'n gryf amdanynt trwy roddion cyflogres.

# Pam cefnogi Gofal Canser Tenovus?



### Gall diagnosis o ganser droi byd rhywun wyneb i waered

Yn ystod un o'r cyfnodau mwyaf brawychus yn eu bywydau, mae angen mwy na thriniaeth feddygol ar bobl. Mae angen cymorth, dealltwriaeth, a rhywun arnyn nhw i droi ato.

## Mae rhoddion yn ein helpu i ddarparu:





### Gwybodaeth a chyngor canser arbenigol

Mae ein Llinell Gymorth ar agor 365 diwrnod y flwyddyn, gan roi mynediad uniongyrchol i unrhyw un sydd wedi'i effeithio gan ganser at nyrsys canser profiadol a all ateb cwestiynau, tawelu ofnau a rhoi sicrwydd hanfodol ar unrhyw gam o'r broses.

### Cysylltiad a chymuned drwy ein corau Sing with Us

Mae ein corau yn dod â phobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser at ei gilydd trwy gerddoriaeth, gan helpu i leihau unigedd, meithrin hyder, a chreu adegau o lawenydd, cyfeillgarwch a chymorth.

### Triniaeth canser yn agosach at adref

Mae ein Huned Gymorth Symudol yn dod â thriniaeth hanfodol yn uniongyrchol i gymunedau lleol, gan helpu cleifion i gael mynediad at ofal yn agosach at adref, lleihau'r straen o deithiau ysbyty a derbyn triniaeth mewn amgylchedd mwy cyfforddus a chefnogol.

## Gall eich gweithwyr helpu i sicrhau nad oes neb yn wynebu canser ar eu pen eu hunain.

## Cwrdd â Kate

**Yn bryderus am ei chanser yn dychwelyd, manteisiodd Kate o Sir y Fflint ar ein gwasanaeth cwnsela. Yma, dysgodd sut i ddelio â'i hofnau a'u troi'n rhywbeth arall.**

Cafodd Kate ddiagnosis o ganser y fron ym mis Medi 2024. Yn dilyn ei sesiwn radiotherapi olaf, dechreuodd gwestiynu'r dyfodol a sut byddai'n delio â bywyd wrth fynd ymlaen.

"Roeddwn i'n flin iawn ac yn cael trafferth derbyn y sefyllfa yr oeddwn i ynddi," eglurodd Kate. "Yna, dywedwyd wrtha i am wasanaeth cwnsela y gallwn fanteisio arno drwy Gofal Canser Tenovus, a chyn pen wythnos, roeddwn i mewn cysylltiad â Sam.

Roedd yn union beth roeddwn i ei angen. Pan ydych chi'n cael trafferth fel yr oeddwn i, mae angen i bethau ddigwydd yn gyflym ac fe wnaethon nhw, diolch byth."





# Sut i'w sefydlu

I ddod yn Rhoddwr trwy'r Gyflogres, ewch i'n gwefan a dilyn y camau yma:

**tenovuscancercare.org.uk/payrollgivingemployer**

Neu, dilynwch y camau isod:

## 1 Dewiswch Asiantaeth Rhoi trwy'r Gyflogres (PGA)

Mae PGA yn gweinyddu'r cynllun ac yn dosbarthu rhoddion i elusennau. Mae rhestr o asiantaethau a gymeradwywyd gan CThEM ar ddiwedd y canllaw hwn.

## 2 Rhoi gwybod i'ch tîm

Efallai nad yw llawer o weithwyr yn gyfarwydd â'r system Rhoi trwy'r Gyflogres, felly mae codi ymwybyddiaeth yn allweddol i lansiad llwyddiannus.

Fe allwch chi:

- Anfon e-bost i'r holl staff
- Rhannu gwybodaeth ar eich mewnrwyd
- Cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau ymsefydlu
- Cynnal diwrnod ymwybyddiaeth Rhoi trwy'r Gyflogres neu ddigwyddiad codi arian

Mae rhai sefydliadau'n dewis gweithio gyda Sefydliad Codi Arian Proffesiynol (PFO) i gefnogi digwyddiadau hyrwyddo a chofrestru. Gellir dod o hyd i restr o PFOs ar ddiwedd y canllaw hwn.

Gallwch hefyd cysylltu â ni ar fundraising@tenovuscancercare.org.uk ar gyfer syniadau a chymorth.

## 3 Gweithwyr yn cofrestru

Bydd staff yn cwblhau ffurflen awdurdodi syml drwy'r PGA o'ch dewis.

## 4 Rhoddion yn dechrau!

Unwaith i'r cynllun gael ei sefydlu, bydd y rhodd yn cael ei dynnu drwy'r gyflogres yn awtomatig ac yn cael ei drosglwyddo i'r elusennau a ddewiswyd.

*Un cam opsiynol arall!*

### Gwella eich effaith trwy roi cyfatebol

Mae llawer o gyflogwyr yn dewis cyfateb rhoddion gweithwyr, naill ai'n llawn neu'n rhannol. Mae hyn yn gymhelliant gwych i staff, gan ei fod yn cynyddu'r cymorth ariannol sy'n cyrraedd elusennau ac yn dangos ymrwymiad arweinyddiaeth wirioneddol i achosion y mae eu staff yn credu ynddynt.

# Cwestiynau Cyffredin

## Sut ydw i'n dewis PGA?

Mae sawl Asiantaeth Rhoi trwy'r Gyflogres wedi'u cofrestru gan CThEM, gan gynnwys:

Sefydliad Cymorth Elusennau / Charities Aid Foundation (CAF) | cafonline.org

Charitable Giving | charitablegiving.co.uk

Charities Trust | charitiestrust.org

Ar ôl i chi ddewis PGA, byddwch yn cwblhau ffurflen gofrestru fer. Gall eich asiantaeth ddewisol eich arwain drwy'r broses.

## A oes cost i'w sefydlu?

Nac oes. Nid oes unrhyw gost i gyflogwyr sefydlu cynllun Rhoi trwy'r Gyflogres.

## Pa mor hyblyg yw'r cynllun?

Mae Rhoi trwy'r Gyflogres yn hyblyg. Gall gweithwyr:

- Newid y swm maen nhw'n ei roi
- Dal neu stopio rhoddion
- Cefnogi sawl elusen yn y DU

## Sut mae elusennau yn derbyn y rhodd?

Mae eich adran gyflogres yn anfon cyfanswm y rhoddion gan weithwyr i'ch PGA dewisol. Yna mae'r PGA yn dosbarthu'r arian i'r elusennau a ddewiswyd.

Mae PGAs yn tynnu ffi weinyddol fach (fel arfer tua 4%) i dalu costau prosesu. Mae'r arian sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i'r elusen. Gall cyflogwyr ddewis talu'r ffioedd hyn fel bod 100% o rodd y gweithiwr yn mynd i'w hachos dewisol.

Mae didyniadau rhoddion yn ymddangos ar slipiau cyflog gweithwyr, ac mae'r PGA yn darparu adroddiadau fel y gallwch fonitro cyfanswm cyfraniadau.

## Beth yw Sefydliadau Codi Arian Proffesiynol (PFOs)?

Mae Sefydliadau Codi Arian Proffesiynol yn arbenigo mewn codi arian yn y gweithle a gallan nhw eich cefnogi i hyrwyddo'r cynllun Rhoi trwy'r Gyflogres yn fewnol. Efallai y byddan nhw'n cynnal sesiynau briffio staff, ateb cwestiynau a rheoli cofrestriadau

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

Hands On Payroll Giving | handsonpayrollgiving.co.uk

Payroll Giving in Action Ltd | payrollgiving.co.uk

STC Payroll Giving | stcpayrollgiving.co.uk

Mae PFOs yn cael eu talu gan elusennau am recriwtio rhoddwyr ac nid ydynt yn codi ffioedd i gyflogwyr. Fodd bynnag, gall cyflogwyr ddewis talu cost y ffioedd, gan sicrhau bod yr elusen yn derbyn y rhodd lawn.

# Darganfyddwch mwy

Ymwelwch â'n wefan
**tenovuscancercare.org.uk/payrollgiving**

Neu e-bostiwch ni ar
**fundraising@tenovuscancercare.org.uk**

Yn codi arian ar gyfer Gofal Canser Tenovus   Elusen Gofrestredig Rhif 1054015